# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

## Cofnodion (LC1(3)-05-10)

**Dyddiad: 25 Chwefror 2010**
**Amser: 1.00 - 1.25**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Sandy Mewies (Cadeirydd dros dro), Delyn
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Nick Ramsay, Mynwy

### Y Swyddfa Ddeddfwriaeth

Liz Wilkinson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Bethan Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol
Alys Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Sesiwn breifat

Yn y cyfarfod ar 28 Ionawr, cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37 (vi), i wahardd y cyhoedd o’i drafodaethau ar gyfer Eitem 2 ac unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol ynghylch yr argymhellion allweddol yn Adroddiad Cyfnod 1.

### Eitem 1: Ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler. Yn unol â’r confensiynau ynghylch gweithrediadau’r Pwyllgorau Deddfwriaeth y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Busnes, roedd Sandy Mewies yn dirprwyo ac fe’i hetholwyd yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 10.19.

### Eitem 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Chris Franks a Val Lloyd. Roedd Bethan Jenkins a Christine Chapman yn dirprwyo.

2.2 Dymunodd y Pwyllgor wellhad buan i Rosemary Butler yn dilyn ei damwain yn ddiweddar.

### Eitem 3: Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno arno, yn amodol ar fân ddiwygiadau, a fydd yn cael eu dosbarthu y tu allan i’r Pwyllgor.